# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cymer Ofal**

**Ysgol Treganna**
**Heol y Fynedfa**
**Caerdydd**
**CF11 8DG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Mercher, 23 Ionawr 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Clwb Cymer Ofal Cyf wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu gofal y tu allan i'r ysgol ar gyfer hyd at 80 o blant, 4 i 11 oed yn Cymer Ofal. Mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg o ystafelloedd yn Ysgol Treganna, Caerdydd, ac yn cynnig gofal rhwng 3pm a 6pm yn yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol. Esyllt Lord yw'r Unigolyn Cyfrifol a'r Person â Chyfrifoldeb. Gwasanaeth Cymraeg yw'r gwasanaeth hwn, sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

1. **Asesiad cyffredinol**
   Gall y plant fwynhau a dysgu o amrywiaeth eang o weithgareddau a phrofiadau diddorol. Maent wedi ymgartrefu'n dda ac yn gyfforddus yn eu hamgylchedd ac yn ymgysylltu'n dda â'r plant eraill a'u gofalwyr. Mae'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion unigol y plant ac yn darparu gofal cefnogol. Mae gan yr amgylchedd adnoddau da iawn, ac mae'r plant yn cael budd o ardal awyr agored fawr. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn effeithiol, ac mae'r tîm rheoli yn croesawu argymhellion i ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach.

2. **Gwelliannau**
   Mae'r holl argymhellion a wnaed yn ystod yr arolygiad diwethaf wedi cael eu rhoi ar waith;
   - Mae'r plant yn cael dewisiadau ychwanegol o ran byrbrydau;
   - mae cotiau a bagiau'n cael eu storio'n ddiogel erbyn hyn a
   - darperir cyfleoedd ar gyfer bod yn annibynnol yn ystod amseroedd byrbryd.

3. **Gofynion ac argymhellion**

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio rheoliadol yn ystod yr arolygiad hwn. Gwnaethom argymhellion arfer a grynhoir ar ddiwedd yr adroddiad.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn mwynhau treulio amser yn y clwb. Caiff y plant eu hysgogi a'i difyrru. Mae amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau addas i fodloni ystod oedran y plant sy'n mynychu.  Gallant wneud dewisiadau ac maent wedi datblygu cydberthnasau cynnes a chadarnhaol â'r bobl sy'n gofalu amdanynt.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â sut maent yn treulio eu hamser yn y clwb a gallant arwain eu chwarae eu hunain. Gwelsom y plant yn dechrau chwarae gemau ac yn gofyn am gymorth gan y staff yn ôl yr angen. Gwelsom fod y plant yn sgwrsio'n gyfeillgar â'r staff, ac roedd yn amlwg bod y staff yn gwrando ar y plant ac yn ystyried eu safbwyntiau. Gwelsom dystiolaeth o'r staff yn ymgynghori â'r plant o ran y fwydlen byrbrydau, adnoddau a gweithgareddau. Er enghraifft, roedd y plant wedi gofyn i gael byrbryd yn yr awyr agored yn ystod y misoedd cynhesach, a gwelsom dystiolaeth ffotograffig yn dangos y gweithredwyd ar eu cais.

Roedd lleisiau'r plant yn gryf o fewn y gwasanaeth. Mae hyn yn hyrwyddo hyder a hunan-barch y plant.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi ymgartrefu ac yn gyfforddus yn eu hamgylchedd. Mae pob plentyn sy'n mynychu'r clwb yn ddisgyblion yn yr ysgol, ac mae'r mwyafrif o staff y clwb yn gweithio yn yr ysgol yn ystod y dydd. Gwelsom lawer o wenu, a bod y plant yn sgwrsio'n hapus â'i gilydd a'r bobl a oedd yn gofalu amdanynt. Gwelsom y plant yn helpu eu hunain i deganau ac adnoddau, ac roedd nifer yn chwarae gemau dychmygus yn frwd. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r arferion clir sydd ar waith, ac sy'n cefnogi ymdeimlad o lesiant ac adnabod. Clywsom lawer o ganmol am ymddygiad da, ac roedd y staff yn dangos diddordeb yn yr hyn roedd y plant yn ei wneud.

Mae'r plant yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn y clwb, lle mae eu llesiant yn cael ei hyrwyddo a'i werthfawrogi. Maent yn mwynhau eu hamser yn chwarae gyda'u ffrindiau a threulio amser gyda'r oedolion sy'n gofalu amdanynt.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn datblygu cydberthnasau da â'i gilydd ac maent wedi meithrin cyfeillgarwch cadarnhaol. Gwnaethom arsylwi ar grwpiau gwahanol o blant dros gyfnod yr arolygiad a gwelsom fod rhyngweithio hyfryd rhwng y plant a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp a gweithgareddau pâr yn hapus. Roedd y

plant yn ystyriol o'i gilydd ac yn rhannu adnoddau, megis magnedau a phennau. Roedd y plant yn siarad â'i gilydd yn garedig, ac roedd amser byrbryd yn ddigwyddiad cymdeithasol wrth i'r plant eistedd yn gwrtais gyda'i gilydd, a sgwrsio â'i gilydd a'r staff.

Mae'r plant yn datblygu sgiliau cymdeithasol da, ac yn dechrau deall pwysigrwydd rhannu a chymryd tro.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu sgiliau newydd drwy'r profiadau chwarae a dysgu a ddarperir. Gallant hefyd ymlacio ar ôl eu diwrnod ysgol drwy ddarllen neu wylio ffilm. Roedd rhai o'r plant yn ymddangos yn flinedig ar ôl y diwrnod ysgol. Mae clustogau a bagiau ffa ar gael i'r plant ymlacio yn y clwb, ond roedd y rhain wedi'u lleoli mewn ardal swnllyd lle roedd y plant yn chwarae. Gwelsom fod pob plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd o'i ddewis, megis chwarae gemau bwrdd neu weithgareddau crefft. Dywedodd dau blentyn wrthym eu bod yn teimlo bod y clwb yn *'hwyl'* gyda llawer o bethau i'w wneud. Roedd y pwyslais ar chwarae rhydd yn bennaf, ond roedd gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolion yr oedd y plant yn eu mwynhau hefyd, megis gweithgaredd parasiwt, lle roedd y plant yn gyffro i gyd wrth geisio rhoi pêl i sefyll ar ben y parasiwt. Roedd y plant yn mwynhau'r gweithgareddau hyn, ac roeddent yn gwenu ac yn dangos diddordeb. Gwelsom dystiolaeth ffotograffig o'r gweithgareddau a drefnwyd ar gyfer y plant yn seiliedig ar eu ceisiadau. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau ioga ac ymweliadau 'zoolab'.

Gall y plant ddylanwadu ar y gweithgareddau a'r tasgau maent yn cymryd rhan ynddynt, ac maent yn mwynhau eu chwarae.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn weithgar ac yn datblygu eu sgiliau cyffredinol gyda chymorth ac anogaeth gan y staff. Caiff nifer o gyfleoedd eu darparu i'r plant ddatblygu eu hannibyniaeth.  Mae'r toiledau a'r cyfleusterau golchi dwylo yn briodol ar gyfer ystod oedran y plant, a gwelsom blant o bob oedran yn defnyddio'r cyfleusterau hyn yn annibynnol. Mae'r plant yn gyfarwydd iawn â'r amgylchedd, ac maent yn symud o amgylch y clwb yn hyderus ac yn hwylus, gan ddewis eu chwarae yn annibynnol. Mae'r plant yn cofrestru eu hunain pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad, ac maent yn sicrhau bod eu heiddo'n cael ei storio mewn modd diogel. Darperir cyfleoedd ardderchog ar gyfer bod yn annibynnol yn ystod amseroedd byrbryd. Gwelsom y plant yn dosbarthu platiau a chwpanau, yn gweini eitemau o ddewis eang o fyrbrydau, yn arllwys diodydd ac yn tacluso llestri. Gwelwyd bod y plant yn mwynhau'r rôl o weini byrbrydau, gan wisgo ffedogau a menig priodol.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Gwelsom fod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran darparu gofal priodol. Maent yn cyflawni eu dyletswyddau yn dda i sicrhau bod y plant yn teimlo'n hapus, wedi setlo ac yn cael gofal. Mae grŵp o staff sefydledig sydd â phrofiad o weithio gyda phlant.

### Ein canfyddiadau

#### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Caiff diogelwch ac anghenion iechyd y plant eu hyrwyddo'n effeithiol. Mae polisi amddiffyn plant ar waith ond nid yw'n cynnwys cyngor diweddaraf y llywodraeth ar y 'Ddyletswydd Atal'. Mae 'Atal' yn ganllaw gan y llywodraeth i gefnogi ymarferwyr gofal plant i adnabod ac ymateb yn briodol i faterion radicaleiddio. Nodir gofynion a dewisiadau deietegol unigol y plant a chyflwynir gwybodaeth am alergeddau plant i'r staff perthnasol. Roedd y plant yn gallu cael gafael ar ddŵr i'w yfed yn ystod eu hamser yn y gwasanaeth, ond nid oedd y jygiau o fewn cyrraedd rhai o'r plant. Yn ystod amser byrbryd, darparwyd byrbrydau ffres a maethlon i'r plant; fodd bynnag, roedd y plant yn cael cynnig sgwash i'w yfed.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau y caiff iechyd a diogelwch y plant ei hyrwyddo'n effeithiol.

#### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae polisi rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith, a gwelsom fod y staff yn gweithredu'n gyson ac yn ystyriol o oedran a cham datblygu'r plant unigol. Mae'r staff yn rheoli rhyngweithio'n dda ac yn darparu ystod o weithgareddau diddorol ac amrywiol sy'n addas ar gyfer oedran y plant. Roedd yr awyrgylch yn brysur iawn, ond yn bwrpasol, ac roedd y staff yn atgoffa'r plant yn dawel i fod yn gwrtais. Roedd nifer fawr o blant yn bresennol, ond roedd digon o staff wedi'u lleoli ym mhob rhan o'r lleoliad, sy'n sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n briodol. Roedd y staff wrth law i roi cyngor a goruchwylio'r plant mewn modd diffwdan. Mae arferion clir ar waith y disgwylir i'r plant eu dilyn, ac mae hyn yn helpu'r gwasanaeth i redeg yn ddidrafferth. Ni welsom fawr ddim ymddygiad amhriodol yn ystod yr arolygiad.

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio yn gadarnhaol ac yn ymateb i'r plant mewn ffordd gyson.

#### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn cefnogi'r plant yn dda, gan roi gofod ac amser iddynt ddewis y gweithgareddau maent am gymryd rhan ynddynt, gan fod pwyslais ar ddysgu a chwarae wedi'i arwain ganddynt eu hunain. Mae'r gwaith cynllunio'n hyblyg ac wedi'i arwain gan y plant. Gall y plant wneud eu penderfyniadau eu hunain, a gwelsom eu bod yn rhydd i symud rhwng adnoddau. Nid yw cofnodion datblygu unigol yn cael eu cynnal gan fod y plant ond yn dod am ychydig oriau bob diwrnod yn ystod tymor yr ysgol. Gwnaeth y staff gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r plant ar sawl

achlysur. Clywsom y plant yn siarad â'r staff am eu diddordebau a'u bywyd ysgol, ac roedd y staff yn ymwybodol o ddewisiadau a diddordebau'r plant.

Mae'r staff yn cefnogi anghenion unigol y plant mewn ffordd gadarnhaol, ac yn cynnig dewis da o weithgareddau i hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol

## 3. Yr amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu darpariaeth 'rhoi popeth i gadw' o ystafelloedd yn yr ysgol. Gall y plant fynd allan i'r ardal gaeedig fawr yn yr awyr agored. Mae'r arweinwyr a'r staff yn sicrhau bod yr holl ofynion iechyd a diogelwch fel y'u nodwyd yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cael eu rhoi ar waith.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr a'r staff yn cyflawni eu cyfrifoldeb o gadw'r amgylchedd yn ddiogel i'r plant. Gwelsom fod cofnod yn cael ei gadw o bob ymwelydd sy'n dod i'r adeilad ac i'r gwasanaeth. Mae mynediad i'r clwb drwy ddrws ffrynt wedi'i gloi. Gwelsom fod risgiau diangen yn cael eu dileu a bod asesiadau risg ar waith ar gyfer gweithgareddau, lle y bo'n briodol.Gwelsom fod cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn eu cynnal a bod sampl o gofnodion a welsom yn nodweddiadol ar gyfer oedran a cham datblygu'r plant, ac nad oeddent yn codi pryderon ynghylch lefelau goruchwylio na diogelwch. Fodd bynnag, nid oedd llofnod rhieni/gofalwr ar rai cofnodion. Mae yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ar waith ac mae gwiriadau trydanol yn cael eu cwblhau gan yr ysgol yn ôl yr angen.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i'r plant, sy'n hyrwyddo eu llesiant.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas. Mae ardal chwarae dan do ar gael i'r plant sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae pegiau cotiau lefel isel yn galluogi'r plant i hongian eu bagiau a'u cotiau wrth iddynt gyrraedd. Mae cyfleusterau toiled o faint sy'n addas i blant wedi'u lleoli ar bwys y brif ystafell, a gall y plant eu defnyddio'n annibynnol heb fawr o oruchwyliaeth. Mae digon o le yn yr ardal dan do a dywedwyd wrthym fod y staff yn addasu gweithgareddau er mwyn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd ar gyfer chwarae corfforol os na allant fynd allan i'r awyr agored oherwydd y tywydd. Y tu allan, roedd y plant yn cael budd o ardal awyr agored hyfryd gyda digon o le iddynt redeg o gwmpas a chwarae gemau. Roedd y safle mewn cyflwr da ac wedi'i haddurno'n dda.

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd sy'n addas iawn i anghenion y plant.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfarpar o ansawdd?

Caiff y plant ddewis o amrywiaeth o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd uchel, sy'n addas o ran eu datblygiad. Mae meinciau o faint sy'n addas i blant yn sicrhau bod y plant yn gyfforddus ac yn gartrefol wrth chwarae a bwyta. Mae'r plant yn cael cyfleoedd chwarae a dysgu da; mae'r adnoddau'n cynnwys gwneud marciau,

gwisgoedd chwarae rôl, blociau, posau, cuddfannau a bwrdd snwcer. Sylwom nad oedd fawr ddim deunyddiau ailgychadwy ar gael.
Y tu allan, mae gan y plant fynediad at ardal fawr â chwrt pêl-droed, cwrt pêl fasged a ffrâm ddringo.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar mewn cyflwr da ac yn darparu profiadau dysgu cadarnhaol i'r plant.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae rheolaeth y gwasanaeth o ddydd i ddydd yn dda. Mae person â chyfrifoldeb cydwybodol yn arwain tîm y staff. Roedd hi'n awyddus i ymgysylltu â phroses yr arolygiad er mwyn symud y gwasanaeth ymlaen a chynnal y safonau uchel. Mae polisïau a gweithdrefnau clir ar waith, sy'n fanwl ac wedi'u hysgrifennu'n dda.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae systemau effeithiol ar waith i reoli'r gwasanaeth. Ceir datganiad o ddiben, sy'n galluogi'r rhieni i wneud dewis gwybodus ynghylch p'un a yw'r gwasanaeth yn addas ar gyfer eu plentyn. Mae amrywiaeth dda o bolisïau a gweithdrefnau ar waith a gaiff eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Gwelsom fod y gofrestr presenoldeb yn gyfredol, a bod contractau gyda'r rhieni yn cynnwys y wybodaeth berthnasol. Mae'r rhieni yn llofnodi slipiau caniatâd ar gyfer eli haul, ffotograffau a thriniaeth feddygol frys. Gwelsom fatrics hyfforddiant y staff a oedd yn dangos bod anghenion hyfforddiant yn cael eu rheoli'n dda, a bod sesiynau gloywi'n cael eu trefnu yn ôl yr angen.

Mae'r arweinwyr yn rhedeg y gwasanaeth mewn ffordd effeithiol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella wedi'u sefydlu yn y gwasanaeth, ac mae systemau ar waith sy'n cefnogi'r prosesau hyn. Gwelsom fod holiaduron am broses hunanwerthuso'r gwasanaeth yn cael eu dosbarthu'n flynyddol, a gweithredir ar unrhyw argymhellion, lle y bo'n bosibl. Roedd rhannau 1 a 2 y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS), a ddosbarthwyd gan AGC yn 2017, wedi'u cwblhau mewn modd amserol a manwl. Mae polisi cwynion ar waith, ond nid oedd yn disgrifio sut allai'r plant godi mater. Roedd y person â chyfrifoldeb yn barod i ystyried syniadau ac argymhellion a wnaed fel rhan o'r arolygiad, gan ddangos ymrwymiad i ddatblygu'n barhaus.

Mae trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn effeithiol.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r rolau wedi'u diffinio'n dda ac mae'r staff yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau. Gwelsom fod y tîm yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, yn cydweithredu ac yn helpu ei gilydd er mwyn sicrhau bod y sesiwn yn mynd rhagddi'n ddidrafferth a bod anghenion y plant yn cael eu blaenoriaethu. Mae'r person â chyfrifoldeb yn sicrhau bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau blynyddol yn rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd staff rheolaidd i drafod arfer a materion sy'n codi. Rheolir y ffordd y caiff y staff eu defnyddio yn dda yn ystod y sesiynau i ddiwallu anghenion penodol y plant. Mae'r system recriwtio staff yn effeithiol ac yn cydymffurfio'n llawn â'r Rheoliadau, gan sicrhau bod y plant yn cael eu

cadw'n ddiogel. Mae'r rheolwyr yn sicrhau bod y plant yn cael budd o lefelau staffio digonol a bod y cyfarpar o ansawdd da.

Mae gan y gwasanaeth dîm o staff sefydlog a chymwys, sy'n ymrwymedig i gyflawni canlyniadau da i'r plant.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r gwasanaeth wedi datblygu systemau i hyrwyddo cyfathrebu clir a meithrin ymddiriedaeth.  Mae'r gwasanaeth yn aelod o sefydliad cymorth ymbarél sy'n darparu arweiniad os bydd angen. Mae gan y gwasanaeth dudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol a gwefan er mwyn rhannu diweddariadau a gwybodaeth am y gwasanaeth. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym fod cylchlythyrau'n cael eu hanfon, a bod nosweithiau rhieni'n cael eu cynnal i roi cyfle i'r rhieni weld y gwasanaeth. Nododd yr holiaduron a welsom fod y rhieni'n hapus iawn â'r gwasanaeth.

Cynhelir partneriaethau gwerthfawr er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r plant.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom drafod yr argymhellion arfer canlynol gyda'r Unigolyn Cyfrifol;

- Ailystyried lleoliad dŵr yfed y plant er mwyn galluogi'r plant i gael gafael arno'n annibynnol;
- cyfeirio at ganllawiau Llywodraeth Cymru, 'Bwyd a Maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant' o ran rhoi sgwash i'r plant i'w yfed yn ystod amserau byrbryd;
- datblygu polisi cwynion i blant dros 8 oed;
- sicrhau bod y rhieni'n llofnodi'r holl gofnodion damweiniau;
- ystyried datblygu'r cyfleusterau gorffwys cyfredol ar gyfer y plant;
- diweddaru'r polisi amddiffyn plant i gynnwys y Ddyletswydd Atal, a
- cynyddu'r defnydd o adnoddau cynaliadwy ac adnoddau wedi'u hailgylchu.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Gwnaeth un arolygydd ymweld â'r gwasanaeth ddwywaith, gyda'r cyntaf yn ddirybudd. Defnyddiwyd y fethodoleg ganlynol i gasglu tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn;

- arsylwi ar arferion gofal;
- cynnal gwiriad gweledol o'r ardaloedd a ddefnyddiwyd;
- ystyried gwybodaeth a oedd ar gael i AGC cyn yr arolygiad, gan gynnwys y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS);
- siarad â'r staff a'r plant, ac
- edrych ar amrywiaeth o ddogfennaeth.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal y Tu Allan i'r Ysgol** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Esyllt Lord** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Esyllt Lord** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **80** |
| **Ystod oedran y plant** | **4 i 11 oed** |
| **Oriau agor** | **rhwng 3pm a 6pm yn yr wythnos yn ystod y tymor** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **24 Mawrth 2015** |
| **Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn** | **26 Tachwedd 2018 a 27 Tachwedd 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:Dim** | |